

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth Medi 18fed 2018 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.

Presennol: Cyng Alyn Ashworth (Dirprwy gadeirydd), Dyfrig Berry, Gaynor Morgan Rees; Carys Rees (Cynorthwydd Dinesig a Digwyddiadau).

Ymddiheuriadau: Cyng Rob Parkes, Philip Stevens, Lara Pritchard; Jenny Barlow (Clerc Y Dref)

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod mis Medi.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Dim
2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar nos Fawrth 17eg o Orffennaf 2018.**
3. **Materion yn codi:** Dim
4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio.**

Roedd cynghorwyr y dref yn dymuno gwrthwynebu'r cais isod yn seiliedig ar y canlynol -

- (1) 01/2018/0705
Y Glyn, Parc Lleweni, Ffordd y Wyddgrug, Dinbych
Datblygu 1.3ha o dir trwy leoli 24 llely a gwaith cysylltiedig.

- a) Cyflenwad dŵr, mae angen ymchwilio i'r digonolrwydd.
- b) Nid yw'n cydymffurfio â pholisi'r cynllun datblygu lleol PSE10
- c) A fyddai'r datblygiad arfaethedig yn ddigon hygyrch.

Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau ar y ceisiadau isod.

- (2) 01/2018/0765
Cyn Adeilad Neuadd, Safle Ysgol Paratoadol Howells, Ffordd y Parc, Dinbych
Trosi hen adeilad Ysgol I ffurfio 2 annedd a gwaith cysylltiedig.
- (3) 01/2018/0766
53 Ffordd Celyn, Dinbych
Codi estyniad a newidiadau i'r annedd a darparu 3 lle parcio gyda mynediad cerbydol cysylltiedig.
- (4) 01/2018/0762
Archfarchnad Morrisons, Ffordd Caledfryn, Dinbych
Arddangos arwyddion allanol wedi'u hail-frandio.

Mae Cynghorwyr Tref yn dymuno atgoffa'r holl bartïon y dylai pob arwydd fod yn ddwyieithog gan gynnwys 'ers' a phopeth ar yr arwydd totwm wrth y fynedfa.

- (5) 01/2018/0594
Tir ar (rhan o ardd) Bryn Y Parc, Stryd y Parc, Dinbych
Amrywio amod rhif 2 o rif cod caniatâd cynllunio 01/2016/0355 i ganiatáu dyluniad diwygiedig.

(6) 01/2018/0038

Tir gyferbyn i Frynhyfryd, The Green, Dinbych.

Codi fy fforddiadwy ar wahân a gosod gweithdy trin preifat.

Mae Cynghorwyr Tref yn dymuno gwneud nodyn ar y cais yma, mae'n rhaid i'r eiddo fod ac yn aros yn fforddiadwy.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7 o'r gloch yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad:.....